**COFNODION CYFARFOD**

**Dyddiad:** 5 Mawrth 2002
**Amser:** 9 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol
Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Busnes y Cynulliad
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Andrew Weeks, PS/y Dirprwy Lywydd

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb i law oddi wrth Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau.

1.2 Croesawodd y Dirprwy Lywydd Carwyn Jones, a oedd newydd ei benodi yn Weinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad i'r Pwyllgor Busnes.

## 2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

### (i) BC56-02 (Terfynol) dydd Mawrth 12 Chwefror 2002

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan nad oedd unrhyw sylwadau byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

### (ii) BC72-02 (Drafft) dydd Mawrth 26 Chwefror 2002

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf ar eu ffurf derfynol.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn codi (BC72-02 dydd Mawrth 12 Chwefror 2002)

3.1 **Paragraff 3.2** Nododd y Dirprwy Lywydd fod Trefnydd blaenorol y Cynulliad wedi cynnig anfon llythyr at aelodau o'r Pwyllgor Busnes ar ddefnyddio'r Weithdrefn Weithredol ar gyfer gwahanol orchmynion amaethyddiaeth. Er hynny, nid oedd wedi cael y llythyr. Dywedodd Marion

Stapleton fod llythyr wedi'i anfon allan ac y byddai'n ei gylchredeg i bob aelod o'r Pwyllgor Busnes.

**4. Is-ddeddfwriaeth**
**(a) Gorchmynion i'w hystyried**

Dim

**(b) Gorchmynion a wneir o dan y Weithdrefn Weithredol**
BC74-02

4.1 Gan gyfeirio at neges e-bost oddi wrth Ysgrifenyddiaeth y Cabinet at aelodau ynghylch gorchymyn a wnaed o dan y Weithdrefn Weithredol, dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad y byddai'r Pwyllgor Busnes yn cael esboniad pryd bynnag y defnyddid y Weithdrefn Weithredol. Croesawodd aelodau'r Pwyllgor Busnes yr addewid hon.

**5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau**
BC66-02 (Diwygiedig)

5.1 Croesawodd y Pwyllgor y papur ar y Weithdrefn at gyfer Teyrngedau a Chydymdeimlad.

**6. Pwyllgorau**

**7. Busnes Arfaethedig**

(i) Busnes yr wythnos hon

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC75-02 sy'n rhoi manylion y busnes yr oedd y Cynulliad wedi cytuno arno ar gyfer yr wythnos.

7.2 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad y byddai'r Prif Weinidog, yn ogystal â'r busnes a oedd wedi'i amserlennu ar gyfer y diwrnod, yn gwneud datganiad ar ymchwiliadau Heddlu De Cymru. Byddai Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, hefyd yn gwneud datganiad ar Adolygiad Carlile. Byddai'r busnes yn dynn o ganlyniad a byddai'r Gweinidog yn ymgynghori â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y posibilrwydd o symud y ddadl ar y GIG i 14 Mawrth. Byddai'n adrodd yn ôl i'r rheolwyr busnes cyn gynted â phosibl.

(ii) Datganiad Busnes Drafft

7.3 Cyngor y Pwyllgor i Drefnydd y Cynulliad ar ei ddatganiad arfaethedig ynghylch trefniadaeth busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau yn dechrau dydd Mawrth 12 Mawrth, dydd Mawrth 19 Mawrth, a dydd Mawrth 16 Ebrill oedd y dylai fynd yn ei flaen fel yr amlinellwyd.

7.4 Cytunodd y Pwyllgor Busnes fod maint y busnes a oedd wedi'i raglennu ar gyfer Cyfarfodydd Llawn i ddod yn golygu y byddai angen rheolaeth dynn ar amser gan bawb.

(iii) Papur ar newidiadau i'r Penderfyniadau ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau (BC77-02)

7.5 Cyflwynodd y Dirprwy Lywydd y papur hwn a oedd yn ceisio slot yn y cyfarfod llawn i wneud newidiadau i'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'n gwneud datganiad byr cyn y ddadl. Cytunodd y Pwyllgor i'r awgrym hwn.

**8. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfod llawn**

**9. Diwygiadau i Reolau Sefydlog**

9.1 Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod y Cynulliad wedi cytuno ag argymhelliad yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad i gael gwared ar gwestiynau llafar i Bwyllgor y Tŷ. Gallai'r newid hwn gael ei weithredu drwy ddiwygio'r Rheolau Sefydlog. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno papur i'r cyfarfod nesaf.
**Camau i'w cymryd: yr Ysgrifenyddiaeth**

9.2 Dywedodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen slot yn y Cyfarfod Llawn ar gyfer cwestiynau i Drefnydd y Cynulliad ar ei gyfrifoldebau heblaw ar gyfer busnes (nid oedd angen Rheol Sefydlog 6.3(iii)) mwyach). Dywedodd y Clerc y gellid diwygio'r Rheolau Sefydlog i ddileu Rheol Sefydlog 6.3(iii). Cytunodd y Pwyllgor y dylai papur ar y newid hwn i'r Rheol Sefydlog gael ei gyflwyno hefyd i'r cyfarfod nesaf
**Camau i'w cymryd: yr Ysgrifenyddiaeth**

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

**11. Unrhyw fusnes arall**

11.1 Gofynnodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad i'r Rheolwyr Busnes drafod, gyda'u priod grwpiau, y posibilrwydd o gynnal Cyfarfodydd llawn rhwng 2pm a 6pm ar ddydd Mawrth a dydd Mercher. Yr oedd hyn yn golygu y cynhelid cyfarfod pwyllgor ar fore dydd Mercher a bore dydd Iau.
**Camau i'w cymryd: Rheolwyr Busnes i drafod y mater gyda'u pleidiau.**

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**